Polisi a Chanllawiau ar gyfer darlledu Darllediadau Etholiadol Pleidiau (PEB) yn ystod Etholiadau Ewrop 2009

Mae'r ddogfen hon yn nodi meini prawf cymhwysedd a dyraniad arfaethedig S4C ar gyfer Darllediadau Etholiadol Pleidiau (PEBs) ar gyfer etholiadau Ewrop 2009.

Mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd o dan Atodlen 12 paragraff 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 i gynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau refferendwm ym mhob gwasanaeth cyhoeddus dynodedig (sef S4C ar analog ac S4C digidol).

Mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd i baratoi polisi mewn perthynas â darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau refferendwm sy'n nodi'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd hon.

Wrth ffurfio'r polisi hwn, mae Awdurdod S4C wedi nodi'r penderfyniadau a wnaed yn y Gr□p Cyswllt Darlledwyr, (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y D.U. – BBC, ITV, Channel 4, Five a S4C), barnau'r Comisiwn Etholiadol a'r rheolau a wnaed gan Ofcom o dan a333 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

1. Dyraniad

1.1 Maen Prawf Sylfaenol
Bydd pleidiau gwleidyddol sydd yn sefyll rhestr gyflawn neu restr sylweddol gyflawn o ymgeiswyr yng Nghymru yn gymwys ar gyfer o leiaf UN PEB yng Nghymru.

1.2 Maen Prawf Ychwanegol
Gall pleidiau gwleidyddol sydd yn cyrraedd y maen brawf sylfaenol fod yn gymwys ar gyfer PEB's ychwanegol os yw S4C yn ystyried y gallant ddangos lefelau arwyddocaol o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a/neu ar hyn o bryd.

1.3 Ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a bod un o'r meini prawf yn 1.1 yn cael eu bodloni, mae S4C yn cynnig y dyraniadau PEBs canlynol ar hyn o bryd:
Tri PEB ar gyfer y prif bleidiau, sef y Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Blaid Geidwadol, a'r Democratiaid Rhyddfrydol a; **Un PEB** ar gyfer unrhyw blaid sydd yn cwrdd ag un o'r meini prawf yn 1.1.

1.4 Bydd y PEBs yn cael eu darlledu ar S4C analog gyda darllediad cyfochrog ar gyfer y fersiwn Gymraeg ar S4C digidol.

1.5 Mae hawl adolygu'r cynigion uchod gan yr Awdurdod tan ddyddiad cau enwebiadau.

2. Cynhyrchu PEBs

2.1 Bwriad y Canllawiau hyn yw ymdrin â materion cydymffurfiaeth ynghyd â'r 'rheolau' gwleidyddol sydd i'w dilyn gan bob plaid. Er mai'r pleidiau sy'n gyfrifol am gynnwys y darllediadau, mae gofyn iddynt ddilyn y canllawiau canlynol, sydd wedi'u cytuno rhwng y darlledwyr ac a fydd yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i bob plaid.

2.2 Maent wedi'u bwriadu i gysoni safonau golygyddol y darlledwyr a disgwyliadau eu cynulleidfaoedd â rhyddid y pleidiau gwleidyddol i gyfleu eu negeseuon gwleidyddol, ac i sicrhau y bodlonir y rhain ym mhob achos.

2.3 Rhaid i bob darllediad gydymffurfio â'r gyfraith – er enghraifft, ar hawlfraint, enllib, dirmyg, anlladrwydd, anogaeth i gasineb neu drais hiliol.

2.4 Er mai cyfrifoldeb y pleidiau gwleidyddol perthnasol yw cynnwys fel arfer, mae'n rhaid i'r holl ddarllediadau gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom, (ac yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm rhaid i'r pleidiau hefyd gydymffurfio â rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Gwleidyddol a Refferendwm yn ogystal ag, (mewn perthynas â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983), â pholisi a chanllawiau S4C ar gyfer rhoi sylw i etholaeth a sylw i ardal etholiadol).

2.5 Yn amodol ar y materion a nodir uchod, cyfrifoldeb y pleidiau sy'n cynhyrchu'r darllediadau yw cywirdeb.

2.6 Bydd y blaid sy'n gyfrifol am y darllediad yn indemnio S4C am yr holl gamau cyfreithiol neu reoleiddiol neu gamau eraill a fo'n deillio o gynnwys y darllediad etholiadol.

2.7 Sicrheir didueddrwydd dros gyfres y Darllediadau gan Bleidiau Gwleidyddol (PPBs) yn ei chyfanrwydd. Nid oes, wrth gwrs, unrhyw rwymedigaeth ar y pleidiau i gyflawni amhleidioldeb ym mhob darllediad.

2.8 Gellir defnyddio detholiad o recordiadau o drafodion seneddol Senedd San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd Yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon dim ond os yw'n dangos araith gan aelod o'r blaid a fo'n gwneud y darllediad, ac y cafwyd cydsyniad yr aelod. Ni ddylid cynnwys y defnydd o ddeunydd sy'n dangos trafodion rhwng y pleidiau. Caniateir lluniau llydan o siambrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd Yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ond ni chaniateir lluniau llydan o San Steffan.

2.9 Gellir defnyddio dyfyniadau o areithiau o gynhadledd y blaid y dyrannwyd y darllediad iddi a gellir eu prynu yn y ffordd arferol oddi wrth y darlledwyr.

2.10 Ni ddylid cynnwys clipiau archif neu glipiau newyddion o aelodau unrhyw blaid wleidyddol arall. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd gweledol a chlywedol fel ei gilydd. Caniateir lluniau llonydd heb eu hanffurfio.

2.11 Lle bo ymgeiswyr yn cael eu cynnwys mewn darllediad etholiadol gan blaid rhaid peidio â gwneud unrhyw gyfeiriad llafar na gweledol amlwg at eu hetholaethau.

2.12 Ni ddylid dangos unrhyw aelod o'r cyhoedd yn amlwg mewn darllediad mewn modd yr ymddengys ei fod/bod yn cefnogi naill ai plaid a/neu bolisi gwleidyddol heb gydsyniad y person hwnnw.

2.13 Ni chaniateir lluniau sy'n cynnwys deunydd gweledol neu leisiol darlledwyr.

2.14 Rhaid egluro unrhyw ddefnydd o actorion mewn darllediad yn glir i'r gynulleidfa os oes unrhyw bosibilrwydd y gellid drysu neu gamarwain y gynulleidfa gyda'u hymddangosiad. Mae'r un peth yn gymwys i unrhyw ail-greu

2.15 Nid yw rhifau ffôn sy'n cynhyrchu refeniw i'w defnyddio mewn darllediad. Caniateir apeliadau i aelodau'r gynulleidfa gysylltu â'r blaid ar ddiwedd y darllediad dros y ffôn, e-bost ac ati, ond ni chaniateir apeliadau uniongyrchol am gyllid fel, "Byddwch yn barod â'ch cardiau credyd".

2.16 Mae PEBs sy'n dynwared yn fanwl fformat rhaglenni sefydledig ar unrhyw sianel, yn enwedig rhaglenni newyddion, yn cario risg camarwain y gynulleidfa ac felly rhaid eu labelu'n glir ar hyd yr amser.

2.17 Gall lluniau newyddion arferol sy'n dangos arweinydd a gwleidyddion plaid ei hun gael eu prynu gan ddarlledwyr yn y ffordd arferol, ond ni fydd clipiau sy'n nodi'r rhaglen yr oeddent yn ymddangos ynddi, logos ar y sgrin, cerddoriaeth thema neu lais neu wyneb cyflwynydd/gohebydd, yn cael eu caniatáu. Ni chaniateir lluniau sy'n dangos gwleidyddion o bleidiau eraill ychwaith.

2.18 Gall pleidiau ddewis un o blith tri hyd amser ar gyfer y darllediad: 2'40', 3'40' neu 4'40. Pan fydd hyd y darllediad wedi'i benderfynu gan y blaid, ni fyddwn yn darlledu PEB sy'n hwy na'n fyrrach na'r hyd penodedig.

3 PEB Cymru

3.1 Byddwn yn cynnig i'r holl bleidiau sy'n gymwys ar gyfer PEB ar S4C y cyfle i ddarlledu fersiwn Gymraeg os ydyw i'w darlledu yn ystod oriau brig. Bydd y fersiwn Saesneg yn y rhan fwyaf o achosion yn cael ei darlledu yn syth cyn oriau brig neu gyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl oriau brig.

3.2 Bydd fersiwn Gymraeg yn golygu fersiwn sydd wedi'i chynhyrchu yn y Gymraeg yn bennaf ac sy'n addas i'w darlledu yn ystod oriau darlledu brig S4C. Os yw'r PEB yn cynnwys defnydd helaeth o drosleisio a/neu isdeitlo, neu os nad yw'n cydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg S4C, mae S4C yn cadw'r hawl i beidio â darlledu ond bydd yn trafod gyda'r blaid o flaen llaw.

3.3 Rhaid i bleidiau fod yn ystyriol o bolisi iaith Gymraeg S4C; gellir ei weld ar ein gwefan: http://www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/canllaw-iaith.pdf

4 Amserlen arfaethedig

4.1 Rhoddir gwybod i bob plaid ynghylch amserlennu eu PEB cyn gynted ag y bo'r amserlen ar gyfer cyfnod yr Etholiad wedi'i chwblhau.